

Agenda – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Senedd
a fideogynhadledd ar Zoom

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

Owain Roberts

Dyddiad: Dydd Mercher, 1 Mawrth 2023

Clerc y Pwyllgor

Amser: 09.30

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

Cofrestru (09.00–09.15)

Rhag-gyfarfod preifat – anffurfiol (09.15–09.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

2 Papur(au) i'w nodi

(09.30)

(Tudalennau 1 – 14)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2023

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2023

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2023

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023

2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Gwybodaeth yn dilyn y sesiwn graffu ar y gyllideb ar 19 Ionawr – 6 Chwefror 2023

(Tudalennau 15 – 19)

2.2 PTN 2 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

Gwybodaeth yn dilyn y sesiwn graffu ar y gyllideb ar 19 Ionawr – 6 Chwefror 2023

(Tudalennau 20 – 22)

2.3 PTN 3 – Bil Amaethyddiaeth (Cymru): Ymateb Llywodraeth Cymru– 3 Chwefror 2023

(Tudalennau 23 – 30)



- 2.4 PTN 4 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 7 Chwefror 2023
(Tudalen 31)
- 2.5 PTN 5 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Llywydd: Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2023 – 24 Ionawr 2023
(Tudalen 32)
[Rheoliadau Ardrethu Annomestig \(Lluosydd\) \(Cymru\) 2023](#)
- 2.6 PTN 6 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Adolygiad Annibynnol o Dreth Trafodiadau Tir – Adroddiad – 15 Chwefror 2023
(Tudalen 33)
[Adolygiad annibynnol: Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig \(Cymru\) 2017](#)
- 2.7 PTN 7 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Craffu ar oblygiadau ariannol Biliau – 15 Chwefror 2023
(Tudalennau 34 – 35)
- 2.8 PTN 8 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Pwyllgor Sefydlog Cyllid Rhyngweinidogol (F:ISC) – 21 Chwefror 2023
(Tudalennau 36 – 37)
- 2.9 PTN 9 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Adroddiad ar Alldro 2021–22 – 24 Chwefror 2023
(Tudalennau 38 – 66)
- 3 Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022–23
(09.30–10.30) (Tudalennau 67 – 86)
Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth
Sharon Bounds, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheolaeth Ariannol

Dogfennau ategol:

[Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2022–23](#)

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

(10.30)

5 Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022–23: Trafod y dystiolaeth

(10.30–10.45)

6 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

(10.45–11.15)

(Tudalennau 87 – 95)

Dogfennau ategol:

FIN(6)–05–23 P1 – Blaenraglen Waith

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Senedd
a fideogynhadledd ar Zoom

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv) yn:
<http://senedd.tv/cy/13412>

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Ionawr 2023

Amser: 09.30 – 14.30

Hybrid

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd) Peter Fox AS Mike Hedges AS Rhianon Passmore AS
Tystion:	David Phillips, Sefydliad Astudiaethau Cyllid Ed Poole, Canolfan Llywodraethiant Cymru Guto Ifan, Canolfan Llywodraethiant Cymru Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru Rhiannon Hardiman, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru Alex Chapman, Sefydliad Economeg Newydd Dr Victoria Winckler, Sefydliad Bevan Luke Young, Cyngor ar Bopeth Natasha Davies, Partner Polisi, Chwarae Teg Richard Hughes, Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol Andy King, Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol



	Professor David Miles, Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol
Staff y Pwyllgor:	Owain Roberts (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Clerc) Georgina Owen (Ail Clerc) Mike Lewis (Dirprwy Clerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Owen Holzinger (Ymchwilydd) Christian Tipples (Ymchwilydd) Božo Lugonja (Ymchwilydd) Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol)

Cofrestru (09.00–09.15)

Rhag-gyfarfod preifat – Anffurfiol (09:15–09:30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid,

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 **PTN 1 – Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): Ymateb Llywodraeth Cymru**

3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24: Sesiwn dystiolaeth 2

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan David Phillips, Cyfarwyddwr Cyswllt, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid; Dr Ed Poole, Uwch-ddarlithydd, Canolfan Llywodraethiant Cymru (Dadansoddi Cyllid Cymru); a Guto Ifan, Darlithydd, Canolfan Llywodraethiant Cymru

(Dadansoddi Cyllid Cymru) fel rhan o'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24.

Egwyl (10.30–10.40)

4 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24: Sesiwn dystiolaeth 3

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru; Rhiannon Hardiman, Ysgogwr Newid, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac Alex Chapman, Uwch Ymchwilydd, New Economics Foundation fel rhan o'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24.

Egwyl (11.25–11.35)

5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24: Sesiwn dystiolaeth 4

5.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Victoria Winckler, Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan; Luke Young, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyngor ar Bopeth Cymru; a Natasha Davies, Arweinydd Polisi ac Ymchwil, Chwarae Teg fel rhan o'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24.

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 7,9,10,11 a 12.

6.1 Derbyniwyd y cynnig

7 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law

8 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24: Sesiwn dystiolaeth 5

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Richard Hughes, Cadeirydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol; Andy King, aelod o'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol; a'r Athro David Miles, aelod o'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol, y Swyddfa

Cyfrifoldeb Cyllidebol fel rhan o'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023–24.

9 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24: Trafod y dystiolaeth

9.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law

10 Cynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2023–24

10.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun Ffioedd Archwilio Cymru ar gyfer 2023–24 o dan Reolau Sefydlog 18.10(x) yn unol ag adran 24(7) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

11 Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar Fil Banc Seilwaith y DU

11.1 Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

12 Goblygiadau ariannol y Bil Bwyd (Cymru)

12.1 Trafododd y Pwyllgor y dogfennau ategol a chytunodd i graffu ar oblygiadau ariannol y Bil Bwyd (Cymru).

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: Hybrid – Ystafell Bwyllgora 4

Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Ionawr 2023

Amser: 09.30 – 14.52

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

<http://senedd.tv/cy/13176>

Hybrid

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd) Peter Fox AS Mike Hedges AS Rhianon Passmore AS Russell George AS
Tystion:	Sally May, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg Darren Hughes, Confederasiwn GIG Cymru Alwyn Jones, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru Dave Street, Association of Directors of Social Services (ADSS) Jon Rae, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) Lis Burnett, Cyngor Bro Morgannwg Anthony Hunt, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen Llinos Medi, Cyngor Sir Ynys Môn Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf



	Strategol, Llywodraeth Cymru Emma Watkins, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Owain Roberts (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Clerc) Georgina Owen (Ail Clerc) Mike Lewis (Dirprwy Clerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Joanne McCarthy (Ymchwilydd) Owen Holzinger (Ymchwilydd)

Cofrestru (09.00–09.15)

Rhag-gyfarfod preifat – Anffurfiol (09:15–09:30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid,

1.2 Roedd Russell George AS yn bresennol ar gyfer eitemau 1 a 2 yn dirprwyo ar ran Peter Fox AS. Roedd Peter Fox MS yn bresennol yn ystod gweddill y cyfarfod.

2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24: Sesiwn dystiolaeth 6

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sally May, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg; Darren Hughes, Cyfarwyddwr, Conffederasiwn GIG Cymru; Alwyn Jones, Llywydd, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru); a Dave Street, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel rhan o'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24.

Egwyl (10.30–10.40)

3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24: Sesiwn dystiolaeth 7

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Cynghorydd Anthony Hunt, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd Cyngor Ynys Môn; a'r Cynghorydd Lis Burnett, Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg fel rhan o'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5, 7 ac 8; a'r cyfarfod nesaf.

4.1 Derbyniwyd y cynnig

5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law

Cinio (11.55–12.45)

6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24: Sesiwn dystiolaeth 8

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys; ac Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth fel rhan o'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24.

6.2 Cytunodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i ddarparu:

- Gwybodaeth am y gyfradd benthyca y mae Llywodraeth Cymru yn ei chael gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.

6.3 Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y byddai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu gwybodaeth am y canlynol:

- Sefyllfa ariannol Byrddau Iechyd Lleol
- Sut y gall y GIG fod yn fwy effeithlon;
- I ba raddau y mae'r Byrddau Iechyd Lleol wedi manteisio ar fentrau buddsoddi i arbed a mentrau cysylltiedig eraill i wella effeithlonrwydd ynni.

7 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24: Trafod y dystiolaeth / Y prif faterion

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a'r prif faterion

8 Trafod Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022

8.1 Trafododd y Pwyllgor y rheoliadau treth.

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Fideogynhadledd drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Mawrth, 31 Ionawr 2023

Amser: 09.30 – 09.57

O bell, preifat

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd) Peter Fox AS Mike Hedges AS Rhianon Passmore AS
Staff y Pwyllgor:	Owain Roberts (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Clerc) Georgina Owen (Ail Clerc) Mike Lewis (Dirprwy Clerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Owen Holzinger (Ymchwilydd) Joanne McCarthy (Ymchwilydd) Christian Tipples (Ymchwilydd) Božo Lugonja (Ymchwilydd)



Yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2023, derbyniodd y Pwyllgor gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw.

Cofrestru (09.15–09.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid,

2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023–24: Trafod yr adroddiad drafft

2.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd i'w gymeradwyo yn amodol ar fân newidiadau.

3 Ceisiadau o ran Cyllideb Atodol 2022–23 gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

3.1 Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau o ran y gyllideb atodol gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ac fe'u derbyniwyd.

3.2 Trafododd y Pwyllgor gywiriad Archwilio Cymru i amcangyfrif 20233–24 ac fe'i derbyniwyd.

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: Hybrid – Ystafell Bwyllgora 5
Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv) yn:
<http://senedd.tv/cy/13207>

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Chwefror 2023

Amser: 10.00 – 12.25

Hybrid

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd) Mike Hedges AS Rhianon Passmore AS Sam Rowlands AS
Tystion:	Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd David Lloyd-Thomas, Llywodraeth Cymru Peter Fox AS, Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil Tyler Walsh, Staff Cymorth Aelod o'r Senedd – Peter Fox AS Elfyn Henderson, Y Gwasanaeth Ymchwil Martin Jennings, Y Gwasanaeth Ymchwil,
Staff y Pwyllgor:	Leanne Hatcher (Ail Glerc) Georgina Owen (Ail Glerc) Mike Lewis (Dirprwy Glerc) Christian Tipples (Ymchwilydd)



Cofrestru (09.30–09.45)

Rhag-gyfarfod preifat – anffurfiol (09.45–10.00)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Dirprwyodd Sam Rowlands AS ar ran Peter Fox AS.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

- 2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Rhagor o wybodaeth yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 14 Rhagfyr – 17 Ionawr 2023
- 2.2 PTN 2 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Newidiadau Arfaethedig i Brothocol y Gyllideb – 17 Ionawr 2023
- 2.3 PTN 3 – Llythyr gan y Prif Weithredwr a'r Clerc at y Pwyllgor: Taliad costau byw i staff y Comisiwn – 19 Ionawr 2023
- 2.4 PTN 4 – Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: Gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru 2021–22 – 19 Ionawr 2023
- 2.5 PTN 5 – Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Llywydd: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) – 27 Ionawr 2023
- 2.6 PTN 6 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Pwyllgor Sefydlog Cyllid Rhyngweinidogol (F:ISC) – 30 Ionawr 2023
- 2.7 PTN 7 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) – 18 Ionawr 2023

3 Goblygiadau ariannol y Bil Bwyd (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar oblygiadau ariannol y Bil Bwyd (Cymru) gan Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a chan David Lloyd-Thomas, Pennaeth yr Uned Polisi a Strategaeth Bwyd, Llywodraeth Cymru.

Egwyl (10.30–11.15)

4 Goblygiadau ariannol y Bil Bwyd (Cymru): Sesiwn dystiolaeth 2

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar oblygiadau ariannol y Bil Bwyd (Cymru) gan Peter Fox AS, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil; Tyler Walsh, Staff Cymorth Aelod o'r Senedd; Martin Jennings, y Gwasanaeth Ymchwil; ac Elfyn Henderson, y Gwasanaeth Ymchwil.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

6 Bil Bwyd (Cymru): Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

7 Cynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2023–24

7.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun Ffioedd Archwilio Cymru cywiredig ar gyfer 2023–24 o dan Reolau Sefydlog 18.10(x) yn unol ag adran 24(7) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
Peredur.OwenGriffiths@senedd.cymru

6 Chwefror 2023

Annwyl Peredur,

Yn dilyn sesiwn craffu'r Gyllideb Ddrafft a gynhaliwyd ar 19 Ionawr, gweler isod wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani.

Cynlluniau PFI

Mae gan Weinidogion Cymru dri benthyciad gyda'r Gronfa Benthyciadau Gwladol ar hyn o bryd: dau fenthyciad hanesyddol a etifeddwyd drwy waith ad-drefnu'r sector cyhoeddus, yn ymwneud â Bwrdd Datblygu Cymru Wledig a Chorfforaeth Datblygu Canolbarth Cymru, a dynnwyd rhwng 1974 a 1991 gyda chyfraddau llog yn amrywio rhwng 13.5% ac 17.25%; a benthyciad a gafodd ei dynnu yn 2019 o dan y pwerau benthyc newydd a roddwyd gan Ddeddf Cymru 2014, gyda chyfradd llog o 1.4%.

Mae Llywodraeth Cymru'n gallu cael benthyc arian drwy'r Gronfa Benthyciadau Gwladol, ar gyfradd llog o 3.7% ar hyn o bryd, ar fenthyciad ad-dalu 25 mlynedd ag ad-daliadau cyfartal. Gall awdurdodau lleol fenthyc drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, ar gyfradd o 4.5% ar fenthyciad cyfatebol.

Mae'r gyfradd llog bresennol yn cyd-fynd â'r hyn a dybiwyd ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2023-24. Felly, mae'n bwysig cydnabod, fel math o gyllid, fod cyfraddau benthycia'r llywodraeth yn dal i ddarparu opsiwn rhatach na benthycia masnachol, er enghraifft.

Ein dealltwriaeth ni yw bod tri contract PFI awdurdod lleol wedi cael eu terfynu a bod un cytundeb bwrdd iechyd lleol wedi dod i ddiwedd ei dymor. Fodd bynnag, nid ein contractau ni yw'r rhain a byddai angen i'r Pwyllgor gyfeirio unrhyw gwestiynau manwl at yr awdurdodau contractio perthnasol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb (y Grŵp Cynghori)

Roedd cynllun gwaith y Grŵp Cynghori ar gyfer 2022 yn cynnwys gweithio ar y cyd â swyddogion Llywodraeth Cymru i archwilio sut y gallem adolygu ein dull o ymdrin â'r Aseiad Effaith Integredig Strategol o'r Gyllideb (SIIA). Roedd hyn yn cynnwys diwygio cyflwyniad y ddogfen SIIA (sy'n dangos y broses o asesu effaith) a gyhoeddwyd fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24.

Yn ystod 2022, cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Grŵp Cynghori llawn gennym ar gyfer trafod yr SIIA yn benodol, gan gynnwys cyflwyniad ar yr SIIA a'i hanes. Gwnaethom sefydlu is-grŵp yn cynnwys aelodau o'r Grŵp Cynghori, gan gynnwys Chwarae Teg, RSPB, y Comisiwn Cydraddoldebau a Hawliau Dynol, a Cytûn. Cyfarfu'r is-grŵp ar ddau achlysur i drafod a phennu pa welliannau y gellid eu gwneud i'r SIIA, gan gynnwys newidiadau y llwyddwyd i'w gweithredu mewn pryd cyn cyhoeddi'r ddogfen ym mis Rhagfyr 2022. Rydym yn cynnal trafodaethau â'r is-grŵp ynghlŷn â'r camau tymor hwy posibl y gellid eu datblygu ymhellach yn ystod 2023. Mae rhagor o fanylion ar gael yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb. <https://www.llyw.cymru/cynllun-gwellar-gyllideb-2023-2024>.

Mae cynllun gwaith y Grŵp Cynghori ar gyfer 2023 yn cynnwys gweithio ar y cyd â swyddogion Llywodraeth Cymru i archwilio sut i ymgorffori'r agenda atal yn ein prosesau cyllideb a threthi. Ar hyn o bryd, rydym yn archwilio a ellir ffurfio is-grŵp, yn yr un modd ag is-grŵp yr SIIA, i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen. Rhoddodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyflwyniad ar atal i aelodau'r Grŵp Cynghori yn ddiweddar. Byddwn yn hapus i gynnig sesiwn frifio technegol debyg ar atal, a'r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy weithio mewn partneriaeth ag aelodau'r Grŵp Cynghori, os yw hyn yn rhywbeth y byddai'r Pwyllgor Cyllid yn ei werthfawrogi.

Datblygu Siarter ar gyfer darparu budd-daliadau yng Nghymru

Wedi'i datblygu ar y cyd â'r Grŵp Uchafu Incwm, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol fel Sefydliad Bevan, mae gennym set ddrafft o egwyddorion ar gyfer y Siarter, y mae rhanddeiliaid wedi cytuno ei bod yn gadarn. Datblygwyd cynllun ymgysylltu er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, ac mae swyddogion wedi nodi cyfleoedd i ymgynghori â'r cynulleidfaoedd canlynol a hyrwyddo'r Siarter iddynt:

- Awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni eraill;
- Sefydliadau sy'n cefnogi pobl sy'n hawlio budd-daliadau;
- Unigolion sy'n hawlio budd-daliadau.

Rhan annatod o'r gwaith hwn fydd ennyn ymrwymiad a chyfranogiad gan awdurdodau lleol, sy'n darparu'r mwyafrif o'r budd-daliadau yng Nghymru. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi cynnig helpu gyda'r gweithgaredd hwn drwy eu bwrdd gweithredol.

Rydym yn ystyried bod gweithredu'r Siarter yn elfen allweddol o'n gwaith i symleiddio budd-daliadau yng Nghymru, a'i bod yn cyflwyno ein gweledigaeth o system deg, gyfartal sy'n seiliedig ar hawliau. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y bydd nifer o rwystrau ymarferol (gan gynnwys rhannu data) i greu system lle bydd yn ddigon i rywun ddweud ei stori unwaith er mwyn cael mynediad at yr hyn y mae ganddo hawl iddo.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru Fforwm Gwasanaeth Cyhoeddus ar Rannu Data ar 28 Tachwedd 2022. Nod y Fforwm, a gafodd ei fynychu gan amrywiaeth eang o gydweithwyr yn y sector cyhoeddus, oedd chwalu rhai o'r chwedlau a phryderon ynghylch rhannu data. Rhoddwyd cyflwyniadau gan gynrychiolwyr o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yng Nghymru, Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn

nodi sut mae deddfwriaeth yn alluogydd, nid yn rhwystr, o safbwynt rhannu gwybodaeth, ac i godi hyder timau i ddefnyddio data i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus.

Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS)

Cynhaliodd y CDPS weithdy gydag CLILC ym mis Tachwedd 2022. Cafodd y gweithdy ei fynychu gan swyddogion o awdurdodau lleol, cydweithwyr o Lywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o Cyngor ar Bopeth o bob rhan o Gymru. Cynigiodd y gweithdy gyfle i weithwyr gwasanaethau cyhoeddus rannu eu profiadau a'u gwybodaeth, ac fe helpodd i ddechrau'r broses o nodi'r problemau pwysicaf a mynd i'r afael â nhw.

Ar ddiwedd y gweithdy, cytunwyd ar nifer o gamau gweithredu, gan gynnwys:

- Sicrhau bod yr enwau swyddogol mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi i bob budd-dal a gwasanaeth yn cael eu defnyddio'n gyson;
- Sicrhau bod llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru yn cydweithio i gydlunio budd-daliadau newydd neu wybodaeth am wasanaethau er mwyn sicrhau bod ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol yn cyd-fynd â'i gilydd;
- Sicrhau bod gwaith rhwng CLILC ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau er mwyn "gwneud pethau unwaith, a'u gwneud yn iawn", gan ei gwneud hi'n glir i ddefnyddwyr a ydynt yn gymwys ar gyfer budd-daliadau a gwasanaethau penodol ai peidio.

Mae'r CDPS yn datblygu'r hyn a ddysgwyd o'r gweithdy ymhellach, ac yn ddiweddar mae wedi sbarduno tîm i weithio gydag awdurdodau lleol drwy gydol mis Chwefror i weithio ar safoni cynnwys ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion –Mynediad (PDG-A).

Mae'r CDPS yn defnyddio hyn fel cynllun peilot i ddeall sut y gellir llunio cynnwys ar y cyd er mwyn gwella ansawdd, hygyrchedd a lleihau costau. Bydd y gwaith hwn hefyd yn brosiect llunio cynnwys lle caiff cynnwys Cymraeg a Saesneg ei lunio o'r cychwyn cyntaf.

Cludiant i'r ysgol

Cyfarfu'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg a'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar 11 Ionawr fel rhan o gyfres o gyfarfodydd Gweinidogol dwyochrog i archwilio cyfleoedd newydd i gyflawni Cymraeg 2050 ar draws holl bolisiau'r Llywodraeth. Manteisiodd y Gweinidog ar y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Dirprwy Weinidog am faterion yn ymwneud â threfniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol sy'n effeithio ar deuluoedd â phlant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Codwyd y materion hyn yn ystod ei gyfarfodydd diweddar ag awdurdodau lleol pan drafodwyd cynnydd awdurdodau yn erbyn eu Cynlluniau Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg. Yn ystod y cyfarfod ar 11 Ionawr, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod rhaglen waith ehangach yn mynd rhagddi mewn perthynas â Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008, yn dilyn adolygiad cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod 2020, ac y bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at drafodaethau ar Fil Bysiau (Cymru).

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi Papur Gwyn o'r enw *Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn*, sy'n cyflwyno gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau bysiau yng Nghymru. Bydd y Bil arfaethedig yn cynnig cyfle inni edrych o'r newydd ar ddarparu gwasanaethau bysiau ledled Cymru, gan gynnwys darparu cludiant i'r ysgol. Gan fod ein nodau'n uchelgeisiol, bydd y diwygiadau hyn yn cymryd amser, ond mae'n hanfodol ein bod yn cael hyn yn gywir er mwyn cefnogi dysgwyr a chefnogi'n rhaglen ddiwygio ehangach.

Mae swyddogion wedi bod mewn trafodaethau ag awdurdodau lleol a darparwyr cludiant i'r ysgol ledled Cymru ynglŷn â chostau cyffredinol darparu cludiant i'r ysgol, wrth i'r awdurdodau barhau i gyflawni eu dyletswyddau statudol o ran darparu cludiant o'r cartref i'r

ysgol i ddysgwyr. Mae awdurdodau lleol yn cadarnhau bod costau gwasanaethau cludiant i'r ysgol wedi cynyddu'n sylweddol ac, yn gyffredinol, bod nifer y cyflwyniadau tendro a geir gan weithredwyr wedi lleihau pan fo gwaith o'r fath yn cael ei gaffael. Mae nifer y gyrwyr sydd ar gael yn parhau i fod yn broblem hefyd.

Bu gwahaniaethau ledled Cymru o ran sut mae awdurdodau lleol wedi delio â'r cynnydd yng nghostau cludiant i'r ysgol. Mae rhai yn cynyddu prisiau contractau yn awtomatig yn flynyddol ar sail chwyddiant, mae rhai yn eu cynyddu pan ofynnir iddynt wneud hynny, ac nid yw rhai yn eu cynyddu o gwbl.

Grantiau: Cyllid dros gyfnod hwy a meincnodi

Cafodd Canolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru ei chomisiynu gan y Prif Weinidog a'r Cabinet i ystyried y ffordd orau o gryfhau'r berthynas â'r rheini sy'n derbyn grantiau, a lleihau'r baich gweinyddol ar gyfer grantiau a ariennir yn gystadleuol. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi gweithio gyda rheolwyr grantiau ar draws Llywodraeth Cymru ac wedi ymgysylltu ag Is-bwyllgor Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector i helpu i gyd-greu'r polisi a'r canllawiau.

O ganlyniad, mae gan reolwyr grantiau, gan gydweithio'n agos â Gweinidogion, yr opsiwn bellach i gynnig grantiau a ariennir yn gystadleuol dros gyfnod hwy a mabwysiadu dull meincnodi yn ystod y broses ddyfarnu, ar yr amod bod adolygiad trylwyr o berfformiad, ac o gyflawni yn erbyn canlyniadau yn cael ei gynnal. Mae buddion y gwaith hwn yn cynnwys y canlynol:

- Rhoi diwedd ar ailgynnal prosesau grant cystadleuol bob blwyddyn, sy'n feichus yn weinyddol i reolwyr grantiau a derbynwyr fel ei gilydd;
- Yr opsiwn o gyflwyno ymarfer meincnodi ar ddiwedd cynllun grant cystadleuol i benderfynu a ddylai sefydliadau gael arian ychwanegol ac felly ei gwneud yn bosibl darparu cyllid iddynt dros gyfnod hwy. Er mwyn sicrhau tryloywder, tegwch a bod pawb yn cael eu trin yn yr un modd, argymhellir bod yr ymarfer meincnodi wedi'i nodi'n glir yn y canllawiau ymgeisio ar gyfer cynlluniau newydd ac nid yw'n cael ei gymhwyso fel ychwanegiad at gynllun presennol. Byddai hynny'n golygu bod pob sefydliad yn gallu deall paramedrau'r cynllun grant o'r cychwyn cyntaf a bod risg herio neu'r risg o roi pobl dan anfantais yn lleihau;
- Mwy o ffocws ar ganlyniadau yn ogystal ag allbynnau;
- Mwy o ddiogelwch i'r trydydd sector, a'r gallu i ail-ganolbwyntio amser gwerthfawr a fyddai'n cael ei dreulio, ac adnoddau a fyddai'n cael eu defnyddio fel arall i gadw arbenigedd aelodau allweddol o staff sy'n ymwneud â gweithgareddau grantiau a ariennir;
- Hwyluso'r gwaith o ddangos gwerth am arian drwy berthnasoddedd partneriaeth dros y tymor hwy, a threfniadau meincnodi a sefydlir gyda derbynwyr grantiau.

Bydd yr angen i gynnal cynlluniau grant cystadleuol (lle bo hynny'n berthnasol) ar gychwyn y broses yn parhau, ac mae hyn yn dangos yr arferion gorau o ran sicrhau gwerth am arian. Mae'n bosibl hefyd na fydd cynlluniau grant tymor hwy na meincnodi yn briodol ym mhob sefyllfa.

Lansiwyd y dull newydd hwn ar 1 Ebrill 2022. Gofynnwyd i reolwyr grantiau ystyried eu meysydd polisi a'u trefniadau presennol, ac i ymgysylltu â'r prosesau gwell newydd ac ystyried sut y bydd y rhain yn berthnasol, wrth barhau i roi sylw manwl i flaenoriaethau a chyllidebau Gweinidogol. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn parhau i weithio gyda rheolwyr grantiau a swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru, gan goladu adborth ar newidiadau ac effaith ar draws yr adrannau, wrth barhau i gyd-greu canllawiau a hyfforddiant a sicrhau bod cefnogaeth ar gael.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth ychwanegol hon yn ddefnyddiol, ond rhowch wybod imi os oes angen unrhyw beth arall arnoch.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Minister for Finance and Local Government

Eitem 2.2

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh GovernmentPeredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor CyllidSeneddCyllid@senedd.cymru

6 Chwefror 2023

Annwyl Peredur,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r ceisiadau am wybodaeth ychwanegol a gododd yn eich sesiwn graffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 ddydd Iau 19 Ionawr 2023, gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

Diweddariad ar sefyllfa ariannol Byrddau Iechyd Lleol y GIG

Rydym wedi rhoi cyllid sylweddol o bron £900m i sefydliadau'r GIG eleni i dalu ar gyfer twf mewn costau a galw, codiadau cyflog, costau ynni eithriadol a'r ymatebion parhaus i bandemig Covid.

Ein disgwyliad oedd bod y sefydliadau'n rheoli eu cyllid craidd ochr yn ochr â'r cymorth hwn. Fodd bynnag, er gwaetha'r gefnogaeth hon, rydym yn gweld diffygion sylweddol yn cael eu hadrodd gan sefydliadau o ran eu cyllid craidd ar yr adeg hon o'r flwyddyn. Fel yr adroddwyd ym mis 9 (Rhagfyr) rhagwelwyd y byddai'r GIG yn wynebu diffyg o £166.9m erbyn diwedd y flwyddyn, gyda disgwyl i bob Bwrdd Iechyd ond un adrodd diffyg ariannol.

Mae'r diffygion yn adlewyrchiad o'r galw sylweddol a'r pwysau o ran chwyddiant y mae'r GIG yn ei brofi yn y flwyddyn ariannol hon. Er enghraifft, mae cost cyffuriau yn cynyddu o leiaf 5%. Mae byrddau iechyd lleol hefyd wedi gweld cynnydd materol yng nghost pecynnau gofal iechyd parhaus.

Er gwaetha'r rhagolygon o arbedion effeithlonrwydd gwerth £140m eleni, mae sefydliadau'n adrodd bod yr arbedion roedden nhw'n bwriadu eu cyflawni eleni £30m yn llai na'r disgwyl, sy'n cyfrannu at y diffyg ariannol.

Mae pwysau ar wasanaethau hefyd yn cyfrannu at hyn gyda nifer o fyrddau iechyd yn cynyddu capasiti o ran gwelyau yn rheolaidd er mwyn ymateb i'r galw. Mae hyn yn creu costau staff uwch, gan gynnwys yr angen i barhau i ddefnyddio staff asiantaeth drud.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SNCanolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn monitro sefyllfa ariannol y GIG yn ofalus bob mis ac mae fy swyddogion, ynghyd â'r Uned Cyflawni Ariannol, wedi cynnal adolygiadau canol blwyddyn manwl gyda phob sefydliad i gadarnhau eu halldro disgwyliedig. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, cyflwynodd y Prif Weithredwyr lythyrau ffurfiol gan y Swyddogion Cyfrifyddu i Judith Paget fel Prif Weithredwr GIG Cymru.

Mae tri bwrdd iechyd (Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf Morgannwg a Hywel Dda) bellach ar lefelau uwchgyfeirio uwch oherwydd bod eu sefyllfa ariannol wedi dirywio fel y nodwyd yn eu cynlluniau ariannol ar gyfer eleni.

Fel rhan o broses ymyrryd strwythuredig, rydym yn gweithio gyda'r sefydliadau hyn i gadarnhau'r rhesymau dros eu dirywiad ariannol. Mae'r ymyriadau hyn hefyd yn profi bod ganddynt broses ar gyfer datblygu cyfleoedd i gyflawni effeithlonrwydd a bod y rhain yn cael eu trosi'n gynlluniau cadarn a chyflawnadwy i arbed arian.

Rydym yn monitro'n ofalus sefyllfaoedd y tri bwrdd iechyd arall (Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr a Phowys) sydd wedi adrodd diffyg yn erbyn y cynlluniau cytbwys a gyflwynwyd ganddynt ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'n debygol y bydd angen ymyriadau pellach ond bydd hyn yn amodol ar y trefniadau teirochrog arferol.

O ran y cwestiwn ynghylch yr hyn y gellir ei wneud i wella effeithlonrwydd y GIG, ac yn benodol dysgu o'r arfer gorau o rannau eraill o'r DU a'r byd

Mae gan sefydliadau'r GIG raglenni effeithlonrwydd blynyddol ac maent yn ymdrechu'n barhaus i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu er mwyn lleddfu'r pwysau ar wasanaethau a sicrhau mwy o gynhyrchiant ac arbedion cost. Mae ffocws sylweddol hefyd ar gynyddu gwerth, a gwella canlyniadau sy'n bwysig i gleifion drwy ddefnyddio adnoddau'n well.

Y rhagdybiaeth gynllunio ar gyfer 2022-23 oedd i'r GIG ddarparu oddeutu 1.5% o arbedion effeithlonrwydd o leiaf a chynnal hynny wrth symud ymlaen. Ond mae sefydliadau'r GIG yn nodi na fydd y targedau gwreiddiol yn cael eu cyrraedd; ym mis 9 maent yn rhagweld alldro o ran arbedion o oddeutu £140m, gyda'r diffyg o £30m yn cyfrannu at eu diffyg ariannol cyffredinol.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau'r GIG sicrhau o leiaf 2.5% o effeithlonrwydd y flwyddyn nesaf, a disgwylir i hyn gael ei adlewyrchu yn eu cynlluniau a fydd yn cael eu cyflwyno ym mis Mawrth 2023.

Mae Judith Paget, Prif Weithredwr GIG Cymru, wedi sefydlu ac yn cadeirio Grŵp Defnyddio Adnoddau sy'n dwyn ynghyd staff rheoli a chlinigol uwch o bob rhan o'r GIG, yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru, i ddarparu dull cenedlaethol a system gyfan o sicrhau effeithlonrwydd. Mae'r Grŵp hwn yn ystyried cyfleoedd i wella gwerth a chynhyrchiant a sicrhau arbedion effeithlonrwydd sy'n rhyddhau arian. Mae'r gwaith cynnar yn cynnwys adolygu meddyginiaethau a hefyd ystyried cyfleoedd yn ymwneud â'r gweithlu er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaethau.

Mae'r GIG hefyd wedi datblygu fframwaith ar gyfer nodi, rhannu a datblygu meincnodau a chyfleoedd i gyflawni gwelliant drwy'r Uned Cyflawni Ariannol mewn storfa ddata ganolog, sy'n cefnogi sefydliadau GIG Cymru a'r grŵp defnyddio adnoddau.

Mae sefydliadau'r GIG yn cymryd rhan mewn grwpiau meincnodi sefydledig fel Rhwydwaith Meincnodi GIG y DU ac yn defnyddio systemau eraill i feincnodi perfformiad a chyfleoedd yn erbyn sefydliadau cymharol a grwpiau cymheiriaid.

Yn ogystal, mae'r GIG yn ymgysylltu â systemau iechyd eraill i nodi cyfleoedd i ddysgu a gwella, megis y Ganolfan Gwerth mewn Iechyd – canolfan sy'n rhan o Gynghair Fyd-eang dros Werth mewn Gofal Iechyd Fforwm Economaidd y Byd.

Mae llawer o waith yn parhau ym maes gofal iechyd seiliedig ar werth o fewn GIG Cymru. Rydym yn buddsoddi mewn dull seiliedig ar werth ar gyfer adfer yn y tymor canolig, gan ganolbwyntio ar wella canlyniadau sy'n bwysig i gleifion. Mae £19 miliwn wedi'i ddyrannu yn 2023-24 ar gyfer hyn. Bydd y dyraniad hwn hefyd yn helpu i adfer y GIG, gyda phwyslais ar ddarparu ymyriadau gwerth uchel sy'n sicrhau gwell canlyniadau i gleifion, yn cefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau ac yn lleihau'r amseroedd aros am driniaeth yn y tymor canolig. Bydd y buddsoddiad hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau'r canlyniadau sy'n bwysig i gleifion, a bydd yn ategu'r gwaith o weithredu'r cynlluniau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i ddelio â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaeth.

Mewn ymateb i wybodaeth bellach ynghylch pa Fyrddau Iechyd sydd wedi defnyddio'r Gronfa Buddsoddi i Arbed a mentrau eraill cysylltiedig i wella effeithlonrwydd ynni

Mae gan y Gronfa Buddsoddi i Arbed gyllid sydd wedi'i glustnodi'n barhaus ar gyfer cynlluniau effeithlonrwydd ynni a gefnogir gan ystod eang o ad-daliadau o fuddsoddiadau blaenorol mewn prosiect lleihau carbon.

Cafodd y gyllideb o £4 miliwn ei dyrannu'n llawn yn 2022-23 ac fe gefnogodd prosiectau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae gan y gronfa gyllideb o tua £4m yn 2023-24 a swm tebyg ar gyfer 2024-25, ac rydym yn disgwyl iddynt gael eu defnyddio'n llawn. Bydd y buddsoddiadau a wneir yn y blynyddoedd ariannol hyn yn helpu i sicrhau bod y gronfa'n parhau ar ôl 2024-25 yn sgil yr ad-daliadau a geir o fuddsoddiadau newydd.

Yn gywir



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Lesley Griffiths AS/MS

**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

7 Chwefror 2023

Annwyl Peredur,

Diolch i chi am Adroddiad y Pwyllgor Cyllid a gyhoeddwyd ar 27 Ionawr ynghylch Bil Amaethyddiaeth (Cymru) fel rhan o broses graffu Cyfnod 1.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei ystyriaeth yn ystod proses graffu Cyfnod 1. Rwyf wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor.

Gweler fy ymateb yn Atodiad 1 i'r set o argymhellion cyn y Ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol sy'n rhan o Gyfnod 1, fel y gofynnwyd amdano yn argymhelliad 1.

Yn gywir

Lesley Griffiths AS/MS

**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Atodiad 1: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru)
– 6 Chwefror 2023**

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, yn unol â'r materion a godwyd yn ei lythyrau at y Prif Weinidog ar 16 Tachwedd a 19 Rhagfyr 2022, fod y Gweinidog yn darparu ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn, cyn y ddadl Cyfnod 1.

Rwyf wedi cytuno i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor cyn dadl Cyfnod 1 ar y Bil hwn.

Fodd bynnag, hoffwn nodi fel yr amlinellwyd gan Brif Weinidog Cymru yn ei lythyr i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr, nid yw bob amser yn ymarferol i Weinidogion wneud hyn cyn dadl Cyfnod 1 pob Bil.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu dadansoddiad o'r costau sydd wedi'u cynnwys yn Opsiwn 3 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n ymwneud â chyllid cynllun datblygu gwledig, ac y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

Derbyn

Roedd y Dadansoddiad Cost a Budd o gymorth yn y dyfodol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) yn hoelio sylw ar gostau a buddion darparu cymorth referniw yn uniongyrchol i ffermwyr. O dan y system bresennol, y ddau beth sy'n cyfrannu fwyaf at hyn yw Cynllun y Taliad Sylfaenol a Glastir, sy'n gyfanswm o ryw £278 miliwn y flwyddyn. Roedd costau a buddion elfennau eraill o gymorth (megis Cyswllt Ffermio a'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm) hefyd wedi'u cynnwys.

Nid ydym yn cynnig arallgyfeirio cymorth ariannol oddi wrth ffermwyr. Nid yw'r £278 miliwn yn rhagfynegiad nac yn warant o lefelau cyllid yn y dyfodol, bydd yn dibynnu ar setliadau ariannol Trysorlys Ei Fawrhydi a phroses cyllideb Llywodraeth Cymru. Mae'n anodd bod yn sicr ynghylch faint yn union bydd y gyllideb yn y dyfodol ar gyfer cymorth amaethyddol y tu hwnt i dymor Senedd hon y DU.

Rydym yn derbyn yr argymhelliad i ychwanegu rhagor o wybodaeth yn ymwneud ag elfennau'r Rhaglen Datblygu Gwledig nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, er gwybodaeth yn dilyn Cyfnod 2.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn ymgymryd â gwaith modelu i amcangyfrif cost flynyddol y cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy sy'n dibynnu ar y nifer wahanol sy'n cymryd rhan yn ôl mathau gwahanol o ffermydd,

Atodiad 1: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) – 6 Chwefror 2023

ac y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

Derbyn mewn Egwyddor

Mae'r RIA yn ymdrin â'r holl ddarpariaethau ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru). Nid yw'n RIA ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS). Mae Opsiwn 3 o'r Dadansoddiad Cost a Budd ar gyfer cymorth yn y dyfodol yn hoelio sylw ar gostau a buddion deddfwriaeth i gyflwyno cymorth sy'n gyson â'r cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM). Nid yw'r Bil yn diffinio mecanweithiau cyflenwi cynlluniau yn y dyfodol.

Mae'r SFS arfaethedig wrthi o hyd yn cael ei ddatblygu. Rydym yn ddiweddar wedi cwblhau'r arolwg, y gweithdai a'r cyfweiliadau a oedd ail ran y broses cyd-ddylunio'r SFS a bwriedir cyhoeddi adroddiad llawn ddechrau 2023. Bydd y gwaith modelu amgylcheddol ac economaidd gan fy swyddogion hefyd yn llywio dyluniad y cynllun arfaethedig terfynol.

Rwyf wedi ymrwymo i ymgynghori ar y cynllun arfaethedig terfynol ddiwedd y flwyddyn. Byddwn yn cyhoeddi ystod o dystiolaeth yn ymwneud â'n hasesiad o'r cynllun a'r allbynnau y disgwyliwn eu cyflawni. Ni fydd yr amserlenni arfaethedig ar gyfer yr ymgynghoriad a gwaith modelu'r SFS yn caniatáu inni gynnwys gwybodaeth ychwanegol mewn RIA diwygiedig ar ôl trafodion Cyfnod 2.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn ailasesu'r costau heb eu meintioli, ac yn defnyddio profiad blaenorol i ddarparu dadansoddiad sensitifrwydd i ddangos yr ystod bosibl o gostau, ac y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

Derbyn mewn Egwyddor

Lle bo'n bosibl, mae'r RIA wedi meintioli'r costau disgwylidig sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn y Bil.

I rai o'r pwerau sy'n cael eu cymryd yn y Bil nid yw'n bosibl mesur costau, er enghraifft, ni allwn wybod pryd y gallai argyfwng ddigwydd, nac ar ba raddfa, felly ni allwn gynllunio ar gyfer yr holl gostau disgwylidig. Ceir esboniad llawnach isod.

Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol:

Ni wyddys sut mae cyfrifo costau ar gyfer y cynnig hwn oherwydd mai natur y pwerau arfaethedig hyn yw ymateb mewn argyfwng. Nodir dwy enghraifft o gynlluniau

Atodiad 1: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) – 6 Chwefror 2023

ymyrryd blaenorol yn y farchnad isod, ond efallai nad yw'r rhain yn adlewyrchu cost unrhyw gynlluniau yn y dyfodol.

Yn 2020, lansiwyd cynllun i gefnogi'r sector llaeth pan orfododd pandemig Covid-19 y sefydliadau lletygarwch i gau. Er i'r cynllun hwn ddefnyddio pwerau dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fe'u defnyddiwyd mewn ffordd debyg i sut y gellid defnyddio'r pwerau arfaethedig. O dan y cynllun hwn, cafodd £1,018,500 ei dalu i ffermwyr llaeth Cymru sydd, o'i addasu ar gyfer chwyddiant, yn cyfateb i £1,182,000 ym mhrisiau 2022.

Yn y cyfnod 2011-2021, lansiwyd dau gynllun ymyrryd mewn argyfwng, er mwyn cefnogi'r sector llaeth. Daeth un ar ffurf cefnogaeth ar draws yr UE yn 2016, a oedd mewn ymateb i galedi a achoswyd gan ddiwedd cwotâu llaeth, gwaharddiad Rwsia ar fewnforion bwyd yr UE a phrisiau olew isel.

Dylid nodi efallai na fydd y cynllun hwn yn adlewyrchu'n uniongyrchol y math o gynllun sy'n bosibl o dan y pwerau arfaethedig ar gyfer amodau eithriadol yn y farchnad yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru), gan iddo gael ei gynnig fel set ehangach o gymorth gan yr UE i'r sector llaeth. O dan gynllun 2016, dyrannwyd €30,195,996 i'r DU o dan y mesur ymyrryd mewn argyfwng hwn. Ar y pryd, amcangyfrifodd swyddogion y byddai'r cymorth i Gymru tua £3.2 miliwn. Wedi ei addasu ar gyfer chwyddiant, yn 2022 byddai hyn werth £4 miliwn.

Safonau Marchnata/ Dosbarthu Carcasau:

Nid oes unrhyw gostau ariannol rhagweladwy oherwydd nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau arfaethedig i ddiwygio safonau marchnata yn y cyfnod amser a bennir.

Tenantiaethau:

Mae'n anodd iawn amcangyfrif costau a buddion gydag unrhyw sicrwydd gan fod pob cytundeb tenantiaeth amaethyddol yn gontract preifat unigryw ac mae manylion y cynlluniau cymorth ariannol y mae'r darpariaethau'n berthnasol iddynt eto i'w cwblhau. Mae'n anodd amcangyfrif faint o denantiaid amaethyddol all elwa ar y darpariaethau pan gânt eu gweithredu. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld mai gwir fudd y cynnig fydd cymell tenantiaid a landlordiaid i ddod i gytundeb drwy drafod er mwyn osgoi costau datrys anghydfod.

Gall tenantiaid sy'n defnyddio'r darpariaethau yn llwyddiannus i amrywio cyfyngiadau (pan gaiff eu gweithredu) dderbyn buddion ariannol uniongyrchol o gael mynediad at gynlluniau cymorth ariannol. Gallai hyn hefyd fod o fudd i'r landlord lle mae cynlluniau'n helpu i gynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant fferm drwy wneud y tenant yn fwy cadarn yn ariannol ac yn llai tebygol o fynd i mewn i

Atodiad 1: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) – 6 Chwefror 2023

ôl-ddyledion rhent. Fodd bynnag, mae'n amhosibl ei feintioli oherwydd bydd yn wahanol ym mhob achos.

Coedwigaeth:

Fel yr amlinellir yn fanylach yn Argymhelliad 6, y costau tebygol a nodwyd yn yr RIA oedd y rhai y gellid eu hadnabod a'u cytuno ar y cyd â'r Grŵp Rhanddeiliaid Darpariaeth Coedwigaeth. Roedden nhw hefyd yn cytuno na ellid mesur nifer o gostau heblaw mewn enghreifftiau unigol fel y nodir yn nhestun yr RIA. Nid oedd dim profiadau blaenorol i dynnu arnynt yn ymwneud â'r pwerau newydd a gynigiwyd.

Cynigir bod amllder achosion a chostau real cysylltiedig yn cael eu harchwilio fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu sydd i'w gynnal o fewn 3 blynedd i gychwyn y pwerau newydd hyn. Bydd hyn yn cynnig gwell dealltwriaeth o weithrediad y pwerau a'r costau sy'n gysylltiedig â hyn.

Ymyrryd Cyhoeddus a Chymorth Storfeydd Preifat:

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio deddfwriaeth Cymorth Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storfeydd Preifat (PSA), gan ddod ag Ymyrraeth Gyhoeddus orfodol i ben a gwneud diwygiadau i sut mae Cymorth Storfeydd Cyhoeddus yn cael ei llywodraethu. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r rhai sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr ac yn defnyddio pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddf Amaethyddiaeth 2020.

Anaml y defnyddir y cynlluniau hyn sy'n gweithredu'n effeithiol pan gânt eu cymhwyso ar draws marchnad y DU, oherwydd y ffaith nad yw'r fanyleb a/neu drothwyon pris yn cael eu bodloni'n aml.

Mae swyddogion ar hyn o bryd yn asesu'r goblygiadau a lle bo'n briodol byddant yn diweddar'u'r RIA.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd y Senedd yn cael cyfle i graffu ar yr Aseiad Effaith Economaidd a chyflwyno ei barn.

Derbyn

Bydd y dadansoddiad economaidd terfynol yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag amrywiaeth o dystiolaeth arall i gefnogi ein cynigion, fel rhan o'r ymgynghoriad arfaethedig yn 2023 ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS). Rhagwelaf y bydd y gwaith hwn yn amcangyfrif effaith economaidd yr SFS arfaethedig ar sector ffermio Cymru.

**Atodiad 1: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru)
– 6 Chwefror 2023**

Byddaf yn sicrhau bod yr adroddiad terfynol ar ddadansoddiad economaidd y SFS arfaethedig ar gael i'r Senedd i graffu arno.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith i asesu'r gost i'r sector preifat sy'n ymwneud â choedwigaeth ac yn darparu dadansoddiad sensitifrwydd i ddangos yr ystod bosibl o gostau, ac y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

Gwrthod

Nid yw'n bosibl darparu ystod bosibl o gostau i'w cynnwys yn yr RIA.

Y costau a'r buddion tebygol a nodwyd yn yr RIA oedd y rhai y gellid eu hadnabod ac fe'u cytunwyd ar y cyd â'r Grŵp Rhanddeiliaid Darpariaeth Coedwigaeth a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau coedwigaeth a chadwraeth. Ni ellid meintoli nifer o gostau heblaw mewn achosion enghreifftiol unigol fel y nodir yn yr RIA.

Mae costau heb eu meintoli eisoes yn rhan o batrwm arferol o gynllunio'r ffordd y caiff coedwigoedd eu rheoli, gan ganiatáu hyblygrwydd o amgylch gweithrediadau cwmpo coed lle mae rheidrwydd yn codi e.e. stopio oherwydd amodau tir gwlyb anaddas neu bresenoldeb annisgwyl aderyn o dan Atodlen 1 i Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981. Mae'r rhain yn unol â Safon Coedwigaeth y DU y mae'n rhaid i bob trwydded torri coed gydymffurfio â nhw.

Bydd yr amodau arfaethedig yn amrywio o amodau llinell sylfaen i amodau penodol neu bwrpasol yn dibynnu ar amgylchiadau'r safle. Nod amodau llinell sylfaen yw ffurfioli cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol arall o fewn y system drwydded cwmpo coed. O'r herwydd, ni ragwelir unrhyw gostau ychwanegol i'r sector preifat a fydd yn uwch na'r hyn sy'n bodoli eisoes.

O ran amodau safle-benodol neu bwrpasol lle mae potensial am gostau ychwanegol, mae darparu ystod o gostau ystyrlon yn anodd iawn. Mae hyn oherwydd y tebygolrwydd anhysbys o wahanol achosion yn codi yn dibynnu ar ffactorau amrywiol iawn megis graddfa gweithrediadau, oed a rhywogaethau coed sy'n cael eu cwmpo, amodau'r safle unigol a'r sensitifrwydd amgylcheddol sy'n bresennol.

Mae'r ffactorau amrywiol iawn hyn hefyd yn effeithio ar amcangyfrif ystod o gostau i'r sector preifat ar gyfer diwygio/atal/dirymu trwyddedau ac unrhyw iawndal

Atodiad 1: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) – 6 Chwefror 2023

cysylltiedig. Nodir bod disgwyl i achosion o waharddiad a dirymu fod yn brin iawn, fel dewis olaf lle na all cytundeb neu welliant fynd i'r afael â'r mater.

Felly, nid yw'n bosibl darparu ystod bosibl o gostau i'w cynnwys yn yr RIA.

Cynigir bod amlder achosion a chostau real cysylltiedig yn cael eu harchwilio fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu sydd i'w gynnal o fewn 3 blynedd i gychwyn y pwerau newydd hyn. Bydd hyn yn cynnig gwell dealltwriaeth o weithrediad y pwerau hynny a'r costau dan sylw.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu, fod y Gweinidog yn meintioli'r manteision sy'n codi o'r Bil.

Derbyn

Mae'r Bil yn cynnwys set o ofynion monitro ac adrodd cynhwysfawr fel y nodir isod.

Bydd adroddiad ariannol blynyddol ar gynlluniau sydd ar waith o dan y Pŵer i Ddarparu Cymorth yn amlinellu'r holl wariant ariannol o'r holl gymorth a ddarperir yn ystod y cyfnod dan sylw. Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn darparu gwybodaeth am nifer y cynlluniau a'u proffiliau ariannol cyfatebol am y cyfnod.

Mae'n rhaid cwblhau Adroddiad Effaith o bryd i'w gilydd i asesu effaith yr holl gymorth sy'n cael ei ddarparu. Nid yn unig y bydd hyn yn darparu mecanwaith atebolrwydd priodol, mae hefyd yn fodd o fesur yn erbyn y dibenion y rhoddir cymorth ar eu cyfer ac asesiad o'r cyfraniad cefnogol tuag at gyflawni amcanion SLM. Bydd hyn yn ffurfio sylfaen dystiolaeth bwysig a pharhaus ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol.

Yn ogystal, mae gofynion adrodd ar gyfer y cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion SLM, lle bydd dangosyddion a thargedau yn cael eu gosod i fesur cynnydd yn erbyn amcanion SLM.

Coedwigaeth:

Bydd fy swyddogion yn cynnal adolygiad ôl-weithredu'r ddeddfwriaeth o fewn 3 blynedd i gychwyn y diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967.

Byddwn ni'n gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid i gytuno ar gasgliad o ddata perthnasol ar ôl cychwyn er mwyn monitro effaith y darpariaethau coedwigaeth o fewn y Bil.

Argymhelliad 8. Lle y bo'n bosibl, dylid cael synergedd rhwng y system TG bresennol a'r un newydd a gaiff ei datblygu i gefnogi ceisiadau ar-lein a rheoli contractau o dan y Bil. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn rhoi rhagor

**Atodiad 1: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru)
– 6 Chwefror 2023**

o fanylion am gostau'r system ar ôl i'r asesiad o'r opsiynau gael ei gwblhau, ac y caiff y wybodaeth hon ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

Derbyn

Bydd rhagor o fanylion am y costau datblygu TG yn cael eu darparu mewn fersiwn wedi'i diweddarau o'r RIA yn dilyn trafodion Cyfnod 2. Amcangyfrifon fydd y costau hyn yn seiliedig ar ein hasesiad cychwynol o opsiynau sy'n ymwneud â chyflwyno cynigion dylunio'r cynllun presennol.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod proses ymgeisio'r cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy i ffermwyr neu fusnesau fferm yn hawdd ei defnyddio ac yn lleihau'r adnoddau sydd eu hangen i wneud cais am y rhaglen drwy gysyniadau megis gwybodaeth wedi'i llenwi ymlaen llaw.

Derbyn

Mae sicrhau bod y broses ymgeisio yn hawdd ei defnyddio a bod angen cyn lleied ag adnoddau â phosibl yn egwyddor dylunio bwysig a fydd yn cael ei mabwysiadu lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog roi eglurhad mewn perthynas â'r £2.8 miliwn mewn costau ychwanegol a ysgwyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac a fydd cyllid ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru neu a ddisgwylir i Cyfoeth Naturiol Cymru amsugno'r costau hyn yn ei gyllideb bresennol.

Derbyn

Mae'r costau a briodolir i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn amcangyfrifon dangosol ac nid yn rhagfynegiadau. Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn gweithio gyda CNC i benderfynu pa gostau a fydd yn ymddangos ymhellach ymlaen, os o gwbl, y gellir eu gwireddu o ganlyniad i gynlluniau SLM yn y dyfodol.

Wrth inni ddechrau trosglwyddo i gynlluniau SLM yn y dyfodol, byddaf yn gweithio i sicrhau bod unrhyw gostau yn y dyfodol sy'n deillio o weithredu'r ddeddfwriaeth hon yn cael eu hystyried yn llawn.

Bydd y gwaith o gefnogi'r ffordd y caiff y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ei gyflawni yn cael ei gytuno rhwng CNC a Llywodraeth Cymru.

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Eitem 2.4



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

07 Chwefror 2023

Annwyl Huw,

Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

Yn dilyn fy llythyr ar 19 Ionawr, rwyf wedi cyhoeddi [Datganiad Ysgrifenedig Gweinidogol](#) yn rhoi crynodeb o'r trafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod diweddaraf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol.

Rwyf wedi cadarnhau fel rhan o'r Datganiad hwnnw y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ym mis Mawrth ac y caiff ei gadeirio gan Lywodraeth y DU yn unol â'r trefniadau cylchdroi. Byddaf yn rhoi diweddariad ysgrifenedig ar drefniadau'r cyfarfod nesaf maes o law, a fydd yn cynnwys y dyddiad a'r eitemau sy'n debygol o fod ar yr agenda.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-RE-0041-23
Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

24 Ionawr 2022

Annwyl Llywydd,

RHEOLIADAU ARDRETHU ANNOMESTIG (LLUOSYDD) (CYMRU) 2023

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2023, dan baragraff 5(13A) o Atodlen 7 i'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Daw'r ddeddfwriaeth i rym drannoeth y diwrnod y'i cymeradwyir drwy benderfyniad gan Senedd Cymru ac yn cael effaith o 1 Ebrill 2023. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodwyd ym mharagraff 5(13C) o Atodlen 7 i'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n rhaid i Senedd Cymru gymeradwyo'r offeryn hwn cyn i'r Senedd gymeradwyo'r *Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol* ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau 1 Ebrill 2023, neu cyn 1 Mawrth 2023, pa un bynnag yw'r cynharaf, er mwyn iddo fod yn effeithiol. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth hon yn y cyfarfod llawn ar 28 Chwefror 2023.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 32

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Peredur Owen Griffiths AS/MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government
15 Chwefror 2023

Annwyl Peredur,

Adolygiad Annibynnol o Dreth Trafodiadau Tir - Adroddiad

Ysgrifennais atoch ym mis Gorffennaf 2021 i roi gwybod i chi am y trefniadau ar gyfer adolygiad annibynnol o'r Dreth Trafodiadau Tir. Mae hyn yn unol â'r rhwymedigaeth statudol a nodir yn adran 77 o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017. Yn dilyn proses dendro agored, penodwyd Alma Economics ym mis Mawrth 2022 i gynnal yr adolygiad annibynnol.

Bydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor bod Alma Economics wedi cwblhau'r adolygiad a bod ei adroddiad wedi ei gyhoeddi heddiw ar wefan llyw.cymru. Canolbwyntiodd gwmpas yr adolygiad ar newidiadau sylweddol a wnaed i'r ddeddfwriaeth o gymharu â'r dreth flaenorol (treth dir y dreth stamp) er mwyn sicrhau bod y newidiadau hynny'n briodol i Gymru o hyd. Roedd yn cynnwys y canlynol:

- Y newidiadau a wnaed i'r Dreth Trafodiadau Tir (o gymharu â threth dir y dreth stamp) ac a ydynt wedi cyflawni gwelliannau
- A yw'r newidiadau'n gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy priodol i Gymru ai peidio
- Nodi cyfleoedd i wneud gwelliannau
- Ystyried materion ymarferol o ran gweithredu
- Effaith absenoldeb y rhyddhad i brynwyr tro cyntaf yng Nghymru ar fynediad at berchnogaeth tai

Rwyf yn atodi copi o'r adroddiad llawn a'r crynodeb gweithredol. Bydd y casgliadau a'r argymhellion sy'n cael eu nodi yn yr adroddiad yn llywio datblygiad y Dreth Trafodiadau Tir yn y dyfodol.

Mae cynrychiolwyr o Alma Economics wedi nodi y byddent ar gael i fynychu un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol i roi cyflwyniad ar ganfyddiadau allweddol yr adroddiad, pe bai hynny'n ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 2.7

Lesley Griffiths AS/MS

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and TrefnyddLlywodraeth Cymru
Welsh GovernmentPeredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

15 Chwefror 2023

Annwyl Peredur,

Craffu ar oblygiadau ariannol Biliau

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 19 Rhagfyr 2022 at y Prif Weinidog ynglŷn â chraffu ar oblygiadau ariannol Biliau'r Llywodraeth, rwyf wedi ystyried cais pellach y Pwyllgor Cyllid.

Byddaf yn rhoi ymrwymiad y bydd pob un o Weinidogion Cymru yn ymdrechu i ymateb i Adroddiad Cam 1 y Pwyllgor Cyllid ar gyfer Biliau'r Senedd cyn y cynhelir y ddadl Egwyddorion Cyffredinol ar y Bil hwnnw.

Fodd bynnag, dylai'r Pwyllgor Cyllid nodi wrth roi'r ymrwymiad hwn, bydd achosion yn codi pan na fydd y manylion y mae'r Pwyllgor yn gofyn amdanynt ar gael yn hawdd o fewn yr amser hwnnw.

Mae'r Llywodraeth yn parhau i ddilyn gofynion Rheolau Sefydlog y Senedd sy'n pennu mai nod y penderfyniad ariannol yw ceisio cytundeb ar oblygiadau ariannol unrhyw Fil nid fel y'i cyflwynwyd, ond fel y'i diwygiwyd ar ôl cwblhau'r broses graffu. At hynny, bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i roi manylion i'r Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgorau sy'n craffu ar bolisi pan fo datblygiadau wedi bod neu ddiwygiadau wedi cael eu gwneud sy'n arwain at newidiadau sylweddol i oblygiadau ariannol pob Bil.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried ymhellach unrhyw oblygiadau sy'n deillio o symud y ddadl penderfyniad ariannol i wythnos ar ôl y ddadl Egwyddorion Cyffredinol, a'r effaith ar y rhaglen ddeddfwriaethol yn y dyfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SNCanolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi anfon copi o'ch llythyr ynghyd â'r ymateb hwn at bob un o Weinidogion Cymru. Anfonir yr ymateb hwn at y Pwyllgor Busnes a Chadeiryddion y Pwyllgorau Polisi hefyd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Eitem 2.8

Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Minister for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh GovernmentPeredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd

21 Chwefror 2023

Annwyl Peredur,

Yn dilyn fy llythyr diweddar yn rhoi gwybod ichi am gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid, a gynhaliwyd ar 9 Chwefror yn St Andrew's House, Caeredin, hoffwn roi crynodeb o'r trafodaethau. Cafodd hysbysiad ei gyhoeddi hefyd yn dilyn y cyfarfod: [Finance: Interministerial Standing Committee – February 2023 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

Yn ymuno â mi oedd y Gwir Anrhydeddus John Glen AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, John Swinney ASA, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Adfer wedi Covid (Llywodraeth yr Alban) (Cadeirydd). Gwnaeth swyddogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon fynychu hefyd yn rhithwyr, i arsylwi.

Canolbwyntiodd rhan gyntaf y cyfarfod ar gynlluniau economaidd a chyllidol y DU a thynnais sylw at yr heriau y mae proses amcangyfrifon atodol y DU yn eu creu i gyllideb Llywodraeth Cymru. Amlinellais hefyd flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Gwanwyn Llywodraeth y DU.

Gan adeiladu ar drafodaethau blaenorol ynghylch darparu mwy o sicrwydd o ran cyllid, a chynnig hyblygrwydd i lywodraethau datganoledig, ac addasiadau posibl i'r broses bresennol a fydd yn fy ngalluogi i gynllunio fy nghyllideb yn fwy effeithiol, gofynnais i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys barhau i ystyried y mater ac rwyf eisoes wedi ategu fy nghais mewn llythyr.

Yn ystod y trafodaethau ar bwysau cyllidebol, mynegais flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Gwanwyn y DU sydd i ddod. Gofynnais i Lywodraeth y DU ddarparu'r cymorth angenrheidiol i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus ac ymateb i'r pwysau o ran chwyddiant, tâl a chostau eraill.

Mae Prif Weinidog y DU wedi nodi lleihau rhestrau aros y GIG fel un o'i flaenoriaethau, a gofynnais am ragor o eglurder o ran beth fydd yn cael ei wneud yng Nghyllideb y Gwanwyn i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SNCorrespondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 36
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gyflawn hyn. Nodais hefyd y bydd y GIG yn dathlu 75 mlynedd o wasanaethu ym mis Gorffennaf.

Cynigiais nifer o awgrymiadau ymarferol a allai gefnogi pobl gyda'r argyfwng costau byw parhaus, gan gynnwys newidiadau i'r polisi didyniadau ar gyfer hawlwyd Credyd Cynhwysol. Mewn perthynas â phrisiau ynni, mynegais bryderon ynghylch lefel y cymorth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector a phyllau nofio. Pwysleisiais hefyd, yn dilyn y gostyngiad mewn cymorth ar gyfer ynni cartrefi, bydd bron i hanner holl aelwydydd Cymru bellach yn wynebu tlodi tanwydd. Gofynnais i Lywodraeth y DU a fyddai modd gwneud mwy gyda threthi ffawdelw ar elw ynni, i sicrhau bod cynlluniau rhyddhad yn cyflawni'r dibenion y bwriadwyd iddynt eu cyflawni a bod unrhyw fylchau'n cael eu cau, er mwyn helpu i gynhyrchu cyllid ychwanegol y gellid ei ddefnyddio i gefnogi'r rhai hynny sy'n ei chael hi'n anodd talu costau ynni.

Yn olaf, tynnais sylw at yr heriau y mae amseru Cyllideb Gwanwyn Llywodraeth y DU yn eu creu i Gymru, gan y bydd yn cael ei chyhoeddi yr wythnos yn dilyn cam olaf cyflwyno ein Cyllideb i'r Senedd (er mwyn galluogi awdurdodau lleol i osod eu cyllidebau erbyn y dyddiad cau statudol).

Roedd ail ran y cyfarfod yn canolbwyntio ar gyllid yn lle cyllid yr UE, ac amlinellais yr effaith y mae penderfyniadau Llywodraeth y DU ynghylch y cyllid hwn wedi'i chael ar Gymru a'r diffyg ariannol o £1.1 biliwn, gan gynnig enghreifftiau i ddangos yr effaith ddifrifol y mae colli'r cyllid hwn yn ei chael yng Nghymru. Gwnes i sicrhau cytundeb gan Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i rannu gwybodaeth am gyfrifiadau sy'n sail i werth cyllid yn lle cronfeydd strwythurol yr UE ac i archwilio dulliau pellach o weithio gyda'n gilydd gan sicrhau mwy o alinio â blaenoriaethau'r llywodraethau datganoledig.

Yn olaf, rhoddais wybod i'r grŵp am yr adroddiad interim a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, gan nodi nifer o bwyntiau sy'n cefnogi ein hachos dros hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal y cyfarfod nesaf, ym mis Mehefin, a byddaf i'n Gadeirydd.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

24 Chwefror 2023

Annwyl Perefur,

Cyhoeddwyd Cyfrifon Blynnyddol Cyfunol archwiliedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 ym mis Rhagfyr.

Yn unol ag ymrwymiad y llywodraeth hon i arferion da a thryloywder, gallaf yn awr ddarparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar alldro terfynol 2021-22 ar gyfer Llywodraeth Cymru, wedi'i osod yn erbyn cynlluniau gwariant a gymeradwywyd yn Ail Gyllideb Atodol 2021-22. .

Mae'r adroddiad a'r atodiadau ategol yn rhoi crynodeb o wariant fesul portffolio o fewn cyfansymiau rheolaeth y Trysorlys, amrywiadau o gymharu â'r gyllideb, esboniad o amrywiadau sylweddol a manylion y symiau i'w cario ymlaen yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

Rwy'n hapus i ymateb i gwestiynau neu sicrhau bod y cyfarwyddwr cyllid a'i staff ar gael i'r pwyllgor i drafod y mater hwn a manylion yr adroddiad, os byddai hynny'n ddefnyddiol.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Adroddiad ar Alldro 2021-22

Adroddiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i Bwyllgor Cyllid y Senedd ar alldro Llywodraeth Cymru 2021-22 yn erbyn y gwariant arfaethedig a gynhwysir yn Ail Gyllideb Atodol 2021-22. Cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023.

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	2
2. Alldro Prif Grwpiau Gwariant 2021-22.....	3
3. Cario symiau ymlaen o fewn Cronfa Wrth Gefn Cymru.....	13
ATODIAD 1: Alldro DEL Adnoddau yn ôl BEL	16
ATODIAD 2: Alldro DEL Cyfalaf yn ôl BEL	23
ATODIAD 3: Alldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn ôl BEL	27

1. Cyflwyniad

- 1.1** Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â'r protocol a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 21 Mawrth 2012 ynghylch newidiadau i gynnyg y Gyllideb a'u heffeithiau ar gylch y Gyllideb yn ystod y flwyddyn.
- 1.2** Fel rhan o'r protocol, cytunodd Llywodraeth Cymru ar y canlynol:
Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn modd agored a thryloyw, bydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar y canlyniadau terfynol. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys cymhariaeth â'r cynlluniau gwario a nodwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn ac eglurhad o'r amrywiadau sylweddol.
- 1.3** Cafodd yr ymrwymiad hwn ei ailddatgan yn y protocol diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 21 Mehefin 2017.
- 1.4** Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â'r ymrwymiad hwnnw ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22.
- 1.5** Cymeradwywyd Ail Gyllideb Atodol 2021-22 gan y Senedd ar 15 Mawrth 2022. Mae'r alldro terfynol yn dilyn cyhoeddi Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru ar 12 Rhagfyr 2022. Mae'r cyfrifon ar gael o'r ddolen rhyngrwyd isod.
- <https://www.llyw.cymru/cyfrifon-cyfunol-blynyddol-llywodraeth-cymru-2021-2022>
- 1.6** Ni wnaed unrhyw ddyraniadau cyllidebol ychwanegol o gronfeydd wrth gefn rhwng dyddiad cyhoeddi'r gyllideb a diwedd y flwyddyn ariannol.
- 1.7** Llunnir yr adroddiad ar yr alldro ar sail strwythur cyllideb Llywodraeth Cymru a oedd mewn grym ar ddiwedd y flwyddyn ac a gaiff ei gofnodi yn yr alldro cyfrifon blynyddol archwiliedig.

2. Alldro Prif Grwpiau Gwariant¹ 2021-22

- 2.1** Mae Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru'n cynnwys Crynodeb o Alldro Adnoddau yn erbyn y cyfansymiau rheoli a gymeradwywyd yng nghynnig Ail Gyllideb Atodol 2021-22.
- 2.2** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion alldro terfynol yn erbyn y rheolaethau lefel is sy'n cael eu gweithredu a'u gorfodi gan Drysorlys EF. Adroddir ar y cyllidebau gweinyddol hyn yn y dogfennau a'r tablau a oedd yn cyd-fynd â'r Ail Gyllideb Atodol, 2021-22.
- 2.3** Yn unol â blynyddoedd blaenorol, mae'r adroddiad hefyd yn darparu esboniadau o bob gorwariant ynghyd ag unrhyw danwariant o fwy na 1% o gyllidebau lefel MEG ym mhob un o'r cyfansymiau rheoli (yn ddarostyngedig i lefel de minimis o £0.5m).
- 2.4** Mae'r alldro wedi cael ei ddadansoddi ymhellach i'r lefel a gyhoeddwyd yn yr Ail Gyllideb Atodol 2021-22. Mae'r tablau cyllidebol a gyhoeddwyd gyda'r gyllideb yn dangos dadansoddiad i Linellau Gwariant yn y Gyllideb neu 'BELs'. Mae'r alldro yn erbyn y gyllideb yn cael ei ddarparu bellach ar y sail hon yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn.

¹ Cyllideb lefel uwch sy'n cynrychioli portffolio gweinidogol neu gyllideb weinyddu ganolog yw Prif Grŵp Gwariant neu MEG.

Alldro DEL Adnoddau (Refeniw)

DEL Adnoddau Cyllido²

- 2.5** Arweiniodd yr alldro Adnoddau Cyllidol ar gyfer y flwyddyn at danwariant o £218.4m sef amrywiant o 1.1% yn y gyllideb.
- 2.6** Roedd y gwariant yn y dosbarthiad cyllidebol hwn yn cynnwys cyllid ychwanegol o £3,326m gan Lywodraeth y DU ar gyfer ail flwyddyn yr ymateb i'r pandemig, gan gynnwys £485m mewn cyllid a gariwyd ymlaen o 2020-21.
- 2.7** Dyrannodd Llywodraeth Cymru £2,817m mewn DEL Adnoddau Cyllidol o'r cyllid ychwanegol i MEGs yn 2021-22. Adlewyrchir yr alldro yn y ffigurau a adroddir isod.
- 2.8** Mae Tabl 2.1 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

Tabl 2.1: Alldro Adnoddau Cyllidol yn ôl MEG	Cyllideb	Alldro	Tan-wariant/ Gor-wariant	%
	£000	£000	£000	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9,771,781	9,717,959	53,822	0.55
Cyllid a Llywodraeth Leol	5,044,326	5,019,929	24,397	0.48
Y Gymraeg ac Addysg	1,950,315	1,932,071	18,244	0.94
Newid Hinsawdd	978,907	970,128	8,779	0.90
Yr Economi	556,569	453,759	102,810	18.47
Materion Gwledig	337,996	338,316	-320	-0.09
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	323,675	310,201	13,474	4.16
Cyfiawnder Cymdeithasol	121,827	124,639	-2,812	-2.31
CYFANSWM	19,085,396	18,867,002	218,394	1.14

- 2.9** Roedd tanwariant MEG yr Economi i'w briodoli i raddau helaeth i'r ffaith bod cyllid y pandemig a ddyrannwyd ar gyfer cymorth busnes yn is na'r disgwyl gan arwain at danwariant o £90m. Am fod y gyllideb yn cael ei harwain gan y galw roedd yn anodd amcangyfrif yr alldro tebygol.

² Mae DEL Adnoddau Cyllidol yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EF ac yn is-set o Adnoddau DEL a chyfeirir ato fel 'refeniw' hefyd.

Adroddwyd ar danwariant pellach yn erbyn cefnogi diwylliant a'r celfyddydau (£2.7m), gwyddoniaeth ac arloesi (£1.5m), digwyddiadau mawr (£1.7m), sgiliau (£4.5m) a rhaglenni strategaeth a chorfforaethol (£1.7m).

2.10 Roedd gorwariant bach yn y MEG Materion Gwledig. Roedd y gorwariant yn cynnwys gwrthbwysu gorwario a thanwario ar sawl llinell yn y gyllideb. Y prif faes gorwario oedd diogelu iechyd a lles anifeiliaid (£5.6m) a oedd yn cynnwys dileu'r twbercwlosis, sy'n gyllideb sy'n cael ei harwain gan y galw ac felly'n anodd ei hamcangyfrif. Y prif faes tanwario oedd mewn cymorth taliadau uniongyrchol i ffermwyr (£4.1m), rhaglen arall oedd yn cael ei harwain gan y galw.

2.11 Prif elfen tanwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu oedd tanwariant o £11.3m yn erbyn cyllideb costau pontio'r UE. Roedd tanwariant hefyd yn erbyn gwariant gweinyddu cyffredinol o £6.3m sy'n cynnwys rheoli ystad Llywodraeth Cymru. Cafodd y gorwariant hwn ei wrthbwysu gan orwariant ar gostau staff o £7.6m.

2.12 Roedd y gorwariant ym maes Cyfiawnder Cymdeithasol i'w briodoli'n bennaf i daliad rhodd o £4m a wnaed o'r gyllideb datblygu rhyngwladol i ariannu'r ymateb cychwynnol i gymorth i Wcráin.

DEL Adnoddau Anghyllidol³

2.13 Cafwyd tanwariant o £1,220m yn y gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol, sef amrywiant o -0.4% o'r gyllideb. Mae'n bwysig nodi bod y gyllideb Adnoddau Anghyllidol wedi'i chlustnodi ac na ellir ei hailgyfeirio i raglenni gwariant Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllidebau hyn yn cwmpasu addasiadau cyfrifyddu megis dibrisiant a darpariaeth i ddileu taliadau benthyciadau i fyfyrwyr.

³ Mae DEL Adnoddau Anghyllidol yn gyfanswm rheoli a bennir gan Drysorlys EF sy'n cwmpasu addasiadau cyfrifyddu blynyddol ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr a gafodd eu dileu, symiau eraill a gafodd eu dileu a thaliadau dibrisiant.

2.14 Mae Tabl 2.2 yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae esboniadau o'r amrywiannau fel y'u pennir ym mharagraff 2.3 yn dilyn.

Tabl 2.2: Alldro Adnoddau Anghyllidol yn ôl MEG	Cyllideb £000	Alldro £000	Tan- wariant/ Gorwariant £000	%
Y Gymraeg ac Addysg	498,702	-723,869	1,222,571	38.16
Newid Hinsawdd	264,121	259,769	4,352	1.65
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	243,137	249,303	-6,166	-2.54
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	16,020	17,306	-1,286	-8.03
Yr Economi	11,598	11,376	222	1.91
Materion Gwledig	9,354	8,542	812	8.68
Cyllid a Llywodraeth Leol	212	281	-69	-32.55
Cyfiawnder Cymdeithasol	149	255	-106	-71.14
CYFANSWM	1,043,293	-177,037	1,220,330	-0.38

2.15 Roedd y rhan fwyaf o danwariant y DEL Adnoddau Anghyllidol yn ymwneud â'r ddarpariaeth benthyciadau i fyfyrwyr yn MEG y Gymraeg ac Addysg (£1,222m). Mae prisiad benthyciadau newydd a hanesyddol yn cael ei bennu gan fodel ystadegol sy'n darparu'r swm sy'n cael ei ddileu yn flynyddol. Mae ffactorau cymdeithasol ac economaidd yn effeithio'n sylweddol ar hyn. Roedd y tanwariant mawr yn 2021-22 yn ganlyniad i newid yng nghyfradd disgownt Trysorlys EF a ddefnyddiwyd a newidiodd o 0.7% i -1.1%, gan ddangos sensitifrwydd y data i'r newidynnau a ddefnyddir yn y model.

2.16 Roedd cyllideb y MEG Newid Hinsawdd hefyd yn cynnwys modelu ar gyfer dibrisiant y rhwydwaith cefnffyrdd ac asedau rheilffyrdd Llinell Caerdydd a'r Cymoedd. Cynhyrnodd y cyfrifiad alldro o'r model yr amrywiant.

2.17 Roedd y gorwariant a adroddwyd yn erbyn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn adlewyrchu'r gofyniad i ariannu dileu o'r stocrestr cyfarpar diogelu personol (PPE) gwerth £10.3m a ddelid gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cafodd hyn ei wrthbwysu gan danwariant yn nhaliadau dibrisiant sefydliadau'r GIG oherwydd oedi mewn pryniannau a llithriad y cynllun, a hynny yn bennaf oherwydd y pandemig.

2.18 Roedd cyllideb y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dibrisiant ac amhariad ystad Llywodraeth Cymru ac asedau eraill. Cododd y gorwario oherwydd amhariad gwerthoedd asedau yn 2021-22 yn dilyn ymarferion prisio.

2.19 Roedd y MEG Materion Gwledig yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dibrisiant y system TG amaethyddiaeth. Mae'r tanwariant bach yn ymwneud â'r gofyniad dibrisiant llai ar gyfer y system.

2.20 Roedd y gorwario bach yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol yn deillio yn bennaf o ofyniad dibrisiant ychwanegol ar asedau TG Awdurdod Cyllid Cymru.

2.21 Roedd y gorwario yn erbyn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol yn ymwneud â thaliadau dibrisiant a gododd yn bennaf o brynu asedau TG.

Alldro DEL Cyfalaf

2.22 Cofnodwyd tanwariant o £1m yn erbyn cyllidebau DEL Cyfalaf sy'n cyfateb i amrywiant o 0.03% yn erbyn y gyllideb. Mae DEL Cyfalaf wedi'i rannu rhwng Cyfalaf Cyffredinol a Thrafodiadau Ariannol Cyfalaf.

Cyfalaf Cyffredinol⁴

2.23 Arweiniodd yr Alldro DEL Cyfalaf Cyffredinol ar gyfer 2021-22 at orwariant o £5m, amrywiant o -0.2% yn erbyn y gyllideb.

2.24 Roedd y gwariant yn y dosbarthiad cyllidebol hwn yn cynnwys £555.9m mewn cyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth y DU ar gyfer yr ymateb i'r pandemig.

